Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xxxix. CHWEFROR, 1939 Rhif 2.

Hela Calennig.

Gan Mrs. A. Rees, Llanelli.

Dyna un Calan arall wedi mynd heibio. Rhyfedd mor gyflym y ffy'r blynyddoedd o'n gafael. Bob Calan sylwaf fod wynebau newydd yn dod at fy nrws. Dyna hanes teulu dyn o hyd—un dô yn mynd a thô arall yn dod. Y mae'r plentyn a oedd wrth fy nrws, megis doe, yn ddyn ieuanc heddiw, a'r un a oedd ieuanc ddoe yn hynafgwr heddiw. Gofynnaf i mi fy hun weithiau, " Paham y mae hoedl dyn mor fyr ar y ddaear ? " . . . Ond na ddilynwn gwestiynau o'r fath yn awr, y mae'n rhaid Hela Calennig.

Perthyn rhyw swyn neilltuol i'r Calan. Hyfryd iawn ydyw clywed llais un plentyn ar ôl y llall yn dymuno i mi " Flwyddyn Newydd Dda " ; ac y mae sylwi ar y boddhad a'r wên ar wyneb y plentyn wrth dderbyn y geiniog yn fil mwy o dâl i mi na'i gwerth.

Pan oeddwn i'n blentyn yn y Felin Llysfaen, dydd pwysica'r flwyddyn i mi oedd Dydd Calan. Dyna'r unig amser y teimlwn fel milioneres, pan dinciai rhyw ddau ddwsin o geiniogau'n fy nghwd. Edrychwn ymlaen ato am wythnosau, ac ymhell cyn y Nadolig poenwn fy mam am gwd i gario'r ceiniogau. Ni chysgwn fawr y nos o'r blaen. Treuliwn y nos i rifo'r tai yr amcanwn ymweld â hwy, ac i rifo'r arian ymlaen llaw, ac i ddisgwyl i'r wawr dorri. Rhifwn lawer cyw na ddeorai er hynny. Ni fyddai fawr archwaeth at frecwast y bore hwnnw, byddai'r cyffro a'r rhag-ddisgwyl yn ormod.

Tua naw o'r gloch, cychwynnwn ar yr antur fawr a'm dygai trwy'r mwd a'r llaca, dros bontydd, trwy nentydd, dros gloddiau a thrwy ffosydd. Deuai dwy o'm chwiorydd gyda mi. Weithiau cychwynnai ein brodyr gyda ni, ond ni fyddem yn hir iawn cyn ffraeo ynghylch rhywbeth neu'i gilydd, ac yna gadawent ni mewn

heddwch, gan gerdded ymlaen fel milgwn. Cofiaf iddynt un tro gerdded cryn bellter er cyrraedd un fferm, gan feddwl cael rhywbeth sylweddol yno, ond siomwyd hwy. Dimai rhwng pob teulu roddai'r fferm honno. Ni fuont yno wedyn.

Dechreuem hela calennig yn Llysfaen Uchaf, a chaem ddwy geiniog yr un yno, ceiniogau newydd hefyd fynychaf. Dyna ddechrau da. Wedyn, ymwelem â Llysfaen Isaf. Lle da eto i blant, yr oedd pawb yn serchog yno. Yna ymlwybrem tua Thynclawdd, trwy bentref bach Tyncelyn. Oddiyno cyfeiriem ein camre tua Llechwedd-deri Isaf. Perai'r rhan yma o'r daith dipyn o ofid i ni, oherwydd yr oedd dau fwci ar y lôn, sef sipsiwn yn gwersyllu a " ladi wen " yn ymddangos ar brydiau. Ni welsom ni'r " ladi wen " erioed, ond gwelsom y sipsiwn ragor nag unwaith. Byddem yn gwybod yn lled fuan ar ôl pasio Tynclawdd a fyddai'r sipsiwn yno neu beidio, oherwydd os byddent, byddai dau neu dri asyn hir-glustiog, teneu yn pori ar ochr y ffordd. Ni fu i'r sipsiwn ymyrryd â ni erioed, ond chwyrnai ci neu ddau arnom weithiau wrth basio'r gwersyll. Byddem yn mynd heibio mor ddistaw â chathod.

Yn nesaf aem i Lechwedd-deri Uchaf. Derbyniem groeso cynnes iawn gan Mrs. Jenkins—Leti, fel y galwai pawb hi yr amser hynny. Hen wraig garedig iawn oedd hi. Os cyrhaeddem yno ar amser cinio, caem bob o fasnaid iawn o gawl a bara ei lond, gyda'r geiniog. Oni fyddai'r ginio'n barod, caem bob o doc o fara ymenyn blasus dros ben. Oddiyno aem i Glydwer. Blinai'r nant a oedd ar waelod buarth Llechwedd-deri Uchaf ni, gan ein bod yn gorfod cerdded drwyddi, ond pe byddai'n rhaid nofio drosti, ni fynnem fod heb geiniog y Glydwer.

Lle a'i lond o groeso oedd y Glydwer hefyd. Un hoff iawn ydoedd Mrs. Jones, neu Rachel, fel y'i gelwid. Oni roddid inni gawl yn Llechwedd-deri Uchaf, byddem yn siwr o'i gael yn y Glydwer.

Ni chofiaf yn iawn i ble'r aem nesaf, ond gwn fod yn rhaid i ni ddod yn ôl heibio i'r sipsiwn drachefn. Aem i Ffrwdyhwyaid, a Chapeli, Cwmynach a Rhydybannau, Penlan, Maesmynach a siopau'r Cribyn. Caem wahanol bethau'n y siopau, orenau mewn un siop, a spani main neu rhyw felysion yn y llall, ac nid hir y byddem cyn eu bwyta o'r golwg. Rhoddid i ni lawer ceiniog gan hwn a'r llall ar yr heol heb ofyn am danynt.

Erbyn hyn, yr oedd yn bryd i ni droi ein hwynebau tua thref. Teimlem yn bur flinedig hefyd. Ar ôl cael tamaid o fwyd, dechreuem rifo'r ffortiwn, a dyna lle y byddem am oriau'n rhifo drachefn a thrachefn. Dyna'r unig bleser a gawswn i o'r ceiniogau ; nid oedd gennyf siawns i gael un pleser arall. Ar ôl blino eu rhifo ni hidiwn beth a ddoi ohonynt.

Mae'n wahanol iawn yn y dref yma. Bydd y plant i gyd yn y prynhawn yn mynd i'r Sinema neu'n teithio yn ôl ac ymlaen ar hyd y dref ar ben y *tram cars*. Eleni yr oedd y Ffair yn digwydd bod yma ar ddydd Calan, ac fe gafodd y plant y Ffair yn rhydd am ychydig oriau yn y prynhawn.

Credaf na fu cymaint o blant oddiamgylch eleni ag arfer. A ydyw'r hen arferiad yn colli tir? Trueni fyddai hynny, oherwydd rhydd i ni gipdrem ar galon y ddynoliaeth yn ei man gorau.

Ti Galan hoff! a'th ddefod hen ddiddorol
Agori ddôr haelfrydedd ymhob bron!
Dy ysbryd aed ar led yn anorchfygol
Nes codi'r tlawd ei fyd yn uwch na'r don.

Daliadau'r Undodiaid—a Phaham.

Gan y Parch. G. J. Sparham, Bryste.

Undeb a chydweithrediad y galluoedd crefyddol—ar hyn y pwysleisir yn y blynyddoedd diwethaf, ac y mae hynny'n iawn.

Beth bynnag ydyw'r gwahaniaethau sy'n bod rhwng crefyddwyr a'i gilydd, rhaid cydnabod fod y pethau y cytunant arnynt yn gorbwyso'r gwahaniaethau. Y mae'n iawn felly bwysleisio'r pethau sy'n tynnu dynion yn agosach at ei gilydd, yn enwedig ymhlith Cristnogion. Yn yr ymdrech i sylweddoli Teyrnas Nefoedd fel ffordd o fyw, yma a thu draw i'r bedd, dylai fod digon o faes cyffredin i gyfeillachu a'i gilydd rhwng pawb sy'n honni Cristnogaeth. Pa mor fawr bynnag y mae gwahaniaeth y credu a'r ymarferion dylai gwasanaeth o blaid y Deyrnas fod yn fwy, a'r syniad hwn i fesur helaeth sy'n hawlio sylw canghennau'r Eglwys heddiw.

Er hynny, os ydym am gael syniad clir am y sefyllfa grefyddol na fydded i ni gau'r llygad ar y ffaith fod yna *wahaniaethau sy'n anhraethol bwysig.*

Gall brwdfrydedd dros achosion mawr arwain dynion i suddo ei gwahaniaethau; gall diffyg meddwl a gwybodaeth arwynebol beri iddynt gredu mai ffals ydyw'r gwahaniaethau; gall diffyg amynedd beri iddynt eu dirmygu, a goddefgarwch beri iddynt eu trin yn ysgafn. Er hynny, y mae gwahaniaethau sy'n hanfodol bwysig, ac y mae gwrthod eu cydnabod yn tylodi ac yn niweidio crefydd. Lle y mae gwahaniaethau felly, y mae'n rhwym arnom roddi iddynt bob ystyriaeth ddwys. Ni ddylid eu hanwybyddu.

I fesur helaeth heddiw ni red y gwahaniaethau hyn ar hyd y ffiniau enwadol ond yn groes iddynt. Ym mhob enwad bron ceir dynion sy'n teimlo fod cysylltiad meddyliol agosach rhyngddynt â chyffes enwad arall na'r eiddo eu hunain. Er fod hyn yn wir, y mae'n wir hefyd fod yr enwadau'n sefyll, fel y gwnaethant erioed, dros wahaniaethau o bwys mewn egwyddorion. Saif Pabyddiaeth, Eglwys Loegr, ac Ymneilltuaeth iawnffyddol, fel grŵpau, dros wahaniaethau gwirioneddol, ac os gwir hynny, felly hefyd y gwna Undodiaeth. Mewn ystyr ddwys gellir dweud fod Cristnogaeth iawnffyddol yn sefyll yn gyfangwbl ar un ochr i'r ddadl, tra y mae Undodiaeth yn sefyll ar yr ochr arall. Am hynny, nid yw'n syndod fod Cristnogion iawnffyddol ar y cyfan yn tueddu i ystyried a gwrthwynebu Undodiaeth fel casbeth. Fe amlyga'r duedd hon fod y gwahaniaeth rhyngddynt yn un sylweddol.

Casau Undodiaeth.

Mewn llawer ffordd y dibrisir Undodiaeth. Fe'i condemnir fel peth oer, negyddol, fel peth sy'n apelio at y deall yn unig, fel peth sydd tu hwnt i amgyffred y dyn cyffredin. Fe'i condemnir fel peth anghristion neu wrth-Gristion, fel grym sydd wedi darfod, fel rhywbeth sy'n annymunol hollol. Gellir deall atitiwd fel hon, pan gofir fod Undodiaeth yn mynd yn groes i gymaint a ystyrrir yn hanfodol gan iawnffyddwyr. Yn wir, anodd gweld o ba safbwynt arall y gallant edrych ar Undodiaeth. Ond pan gyfarfyddwn â Ffydd sy wedi cynhyrchu dynion mor nodedig am eu cymeriad a'u gwasanaeth Cristnogol, Ffydd sy wedi gwreiddio ohoni ei hun mewn gwahanol rannau o'r byd, yn y Gorllewin yn ogystal a'r Dwyrain, y mae lle i gredu nad ydyw'r Ffydd honno mor annymunol ag y portreadir hi'n fynych. Yn wir, y mae'n ategu'r athrawiaeth—"Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt." Y mae'n amlwg na ellir gwrthod gwrando ar hawliau crefydd sy wedi cynhyrchu'r fath ddynion trwy siarad geiriau distrywiol amdani. Ni all Ffydd anghristion feithrin nodweddion ymarweddiad Cristnogol. Onid galwad i "ffordd o fyw" ydyw galwad Iesu erioed i'w ddisgyblion?

Gofynnwn, Beth ydyw cred yr Undodwr? Pa reswm sy ganddo dros ei ffydd? A ydyw mor annymunol ag yr honnir yn fynych ei bod? Cyfnewidiwr mawr opiniynau dynion ydyw gwybodaeth—fel y dywedodd un offeiriad caredig unwaith wrth ysgrifennydd y geiriau hyn: "Ha, Undodiaeth! Nis hoffais erioed. Ond hwyrach pe bae gennyf wybodaeth helaethach amdani, fe'i hoffwn yn well". Beth ydyw'r Ffydd sy'n ysbrydiaeth i'r Undodiaid? Ceisiwn ystyried ei nodweddion amlycaf.

Beth sy'n gwneud Undodwr neu Eglwys Undodaidd yn wahanol i grediniwr neu Eglwys arall ym myd cred? Dyna'r cwestiwn cyntaf, a'r ateb yw—yn anad dim, y mae Undodiaeth yn *gynnyrch ffordd arbennig o feddwl*. Dyna'r sylfaen. Yn nodwedd o Undod-

iaeth ymhobman y mae'r gred mai'r Gwirionedd yn unig sy'n meddu ar awdurdod ; nid rhyw athrawiaeth arbennig y credir mai'r Gwirionedd ydyw, ond y Gwirionedd ei hun, i ba gyfeiriad bynnag yr arweinir dynion ganddo. Felly synia'r Undodwr mai prif hanfod crefydd ydyw rhyddid llawn yn feddyliol ac yn ysbrydol er galluogi dynion i ddilyn y Gwirionedd. Oherwydd hynny gwel yr Undodwr yn dda i wrthod pob credo sy'n cyfyngu ac yn rhwystro meddwl. Dyma nodwedd amlycaf Undodiaeth—y gred mewn rhyddid barn ac ymchwil, a'r hawl i wrthod pob credo a sylfaenir ar orfodaeth unrhyw awdurdod allanol.

(*I'w barhau*).

Amodau Undeb.

Cred Arglwydd Esgob Tyddewi y ceir ail-uniad y gwahanol ganghennau o'r Eglwys Gristnogol yn y man ar linellau'r cydweithio a wneir yn eu plith ar y meysydd cenhadol, gan olygu'n arbennig yn Travancore. Yno, meddir, ceisir gan y gwahanol genhadon guddio'r gwahaniaethau enwadol, a dangos i'r cyhoedd eu cydweledíad ar y pethau canolog. Hoffem pe bae cymaint awydd i gydweithio ymhlith Cristnogion Cymru o bob plaid ag y sydd gan ein brodyr yn Travancore ; ond cydnabyddwn fod nifer o rwystrau ar y ffordd i droi'r awydd yn weithred, pe bodolai. Yn eu plith y mae tri rhwystr sy'n dra amlwg, sef methu â chytuno ar beth sy'n hanfodol mewn Cristnogaeth, methu â chefnu ar draddodiadau enwad am ei arweinwyr a'i wroniaid, a methu ag ystwytho'r cyfundrefnau enwadol a'u trysorfeydd i gwrdd â'r cyfnewid a digwyddai i'r weinidogaeth mewn canlyniad. Y mae'r hyn a eilw y Sais yn " vested interests " yn codi ei gloch yn y fan mewn pethau crefyddol fel yn y pethau gwladol a masnachol (pan fygythir symud i uno'r enwadau). A chaniatau y penderfynai'r Enwadau Cristnogol ymuno yn un gymdeithas frawdol, beth tybed fyddai'r amodau ?

Rhaid fyddai rhoi rhyddid i ddyn gredu'r gwir am y cread, am hanes ein byd ni ac am y natur ddynol, onite byddai gwyddonwyr, haneswyr, athronwyr a phobl onest eu barn yn gorfod gwrthod ymuno â'r gymdeithas unedig, a thybiwn y byddent yn lluosog eu rhif.

Hyd yn hyn cyndyn iawn yw'r meddwl Cristnogol swyddogol, nid yn unig yng Nghymru, ond yn gyffredinol, i ganiatau i ddyn dderbyn tystiolaeth natur amdani ei hun am fod hynny'n gwanhau hawl Genesis i fod yn anffaeledig ac, mewn canlyniad, yn tanseilio

awdurdod yr Eglwys sy'n sylfaenedig ar lyfr anffaeledig. Gwella y mae pethau yn y cyfeiriad hwn bellach, a lleihau y mae nifer y bobl sy'n gwneud Genesis yn lladmerydd iddynt mewn gwyddoniaeth. Bydd caniatau i ddyn i ffurfio barn am y cread yn wyneb ffeithiau a goleuni natur yn hanfodol fel un amod undeb y frawdoliaeth gyfunol yr amcenir ati. Y mae hanes dyn hefyd yn gymaint o orchwyl y gwyddonydd ag ydyw hanes y cread, ac erbyn hyn ynfydrwydd yw dibynnu ar ddyddiadau ymyl dalen Beibl Peter Williams am hynafiaeth dyn, canys ceir yn y bedd diwethaf a ddygwyd i olau dydd yn yr Aifft gorff a llestri a berthynai i oes bum canrif cyn y dyddiad a rydd Peter Williams i Adda. Os oedd dyn ar y ddaear filiwn o flynyddoedd yn ôl yng ngolau tystiolaeth gweddillion dynol a gaed yn Ewrop ac Asia, rhaid diwygio hen syniadau diwinyddol mewn cysondeb â'r ffaith hon. Tybiwn y caniateir yn Eglwys gyfunol y dyfodol i'w haelodau ryddid i roi Eden yn yr un dosbarth o farddoniaeth ag " Oes Euraid " yr hen fyd, ac ni fydd raid i'r gwyddonydd deimlo ei fod mewn " concentration camp " wrth fod yn aelod ohoni.

Ond beth am yr athronydd ?

Byddai lle hwn yn fwy anesmwyth nag eiddo'r gwyddonydd am y byddai'r diwinydd yn mynnu herio ei gasgliadau ar sail y profiad crefyddol sy'n ddirgelwch i'r athronydd.

Os medr mathematician ddweud mai un siawns o filiwn o safbwynt mathemateg sydd gan y gred yn y Bod o Dduw fod yn gywir,—er nad yw Syr James Jeans ddim mor feiddgar â hynny,—fe all yr athronydd wneud y tebygolrwydd fod y gred yn gywir i orbwyso'r gwrthwyneb, canys adeiladu ar sylfaen ysbrydol, sef yr egwyddor o feddwl, y mae ef o'r cychwyn . Nid ar bwnc o wirionedd y Bod o Dduw y byddai ei gweryl a'r diwinydd, ond ar berthynas Duw a dyn. Fe fynnodd diwinydd y gorffennol ddeffinio'r berthynas hon mewn termau athronyddol, sef termau wedi eu benthyca o gysylltiadau materol a'u cymhwyso at ffeithiau ysbrydol, ac yn ei sêl dros ei dermau fe gollodd ysbryd y grefydd a amcanai ei diogelu. O bosibl y medr yr athronydd a'r diwinydd yn y dyfodol roi mewn ychydig i'w gilydd ar bwnc y termau priodol i'w defnyddio wrth geisio ffurfio syniadau am yr ysbrydol, ond y mae'r athronydd yn fwy byw i arwyddocâd moesol pethau na'r diwinydd fel rheol. Cychwyn gyda'r profiad crefyddol y mae'r diwinydd a cheisio ei esbonio, ac yn aml iawn yn y gorffennol collodd olwg ar hawliau'r moesol wrth ei esbonio, a gwthiodd rin i'w sacramentau sy'n dramgwydd i gydwybod. Ond cychwyn gyda'r profiad beunyddiol cyffredin i bawb dynion mewn synnwyr y mae'r athronydd, a thrwy fyd cydwybod y symud ef ymlaen at gynnwys y profiad crefyddol.

Medr yr athronydd wneud ei gartref yn eglwys gyfunol y dyfodol os caniateir iddo beidio llindagu ei reswm a gofidio ei gydwybod

trwy orfod cefnogi termau sy'n tywyllu cyngor yn hytrach na goleuo'r meddwl. Trwy wneud damcaniaethau'n ail raddol ac egwyddorion moesol yn holl-bwysig fe gytunai'r athronydd i ymaelodi yn yr eglwys dan sylw.

Rhaid, ni gredwn, fedru credu fod Duw yn cyrraedd dyn ar lwybr natur, meddwl a byd cydwybod, ac y medr dyn wybod hynny a deall ei ystyr fel sail i'r teimlad crefyddol, a chyfoethogi'r teimlad hwn y mae cymdeithasu â meddyliau dynion a fu'n ddwfn yng nghyfrinach cyfeillachu a'r dwyfol yn y gorffennol. Byddai gan yr eglwys gyfunol gyfoeth anferth o brofiad crefyddol yr oesau i ysbrydoli ei haelodau, ac o fod dan lywodraeth ysbryd awyddus i ddyfnhau cred yng ngwerth dwyfol y pwerau sy'n gwneud dyn yn abl i ddeall Duw, cydweithio â Duw ac ymdebygu iddo, byddai'n atyniad nerthol mewn cymdeithas. Yn y gorffennol fe wnaeth yr eglwys ei chredo'n hanfodol, ond nid ei sacramentau, ac yn y dyfodol, os i gyfuno, bydd yn rhaid iddi fod yn llai pendant ar ei deffiniadau o'i chredo ac yn fwy pendant ar y cwestiwn o'i dyletswydd o dderbyn i'w chefnogaeth bawb sy'n awyddu am fod yn deilwng er mwyn medru byw'n deilwng fel deiliaid teyrnas Dduw a brodyr cyd-ddyn cyrrau'r ddaear. Ofnwn fod grym hen sefydliadau a hen ddamcaniaethau yn rhy nerthol inni fedru gobeithio gweld undeb rhwng gwersylloedd mawr y byd Cristnogol, ond lledaena ysbryd mwy brawdol dros yr eglwysi'n ddiweddar yn ein gwlad ni, o leiaf yng Nghymru, er mantais fawr i grefydd pob ardal, a dichon mai ernes yw hynny o'r amser gwell sydd ymlaen.

Eto, ni ellir er pob awydd ac ymgais gael eglwys a erys yn gartref ysbrydol i'r ymofynnydd cywir am y pethau gorau ond yr un y mae'r gwir yn bwysicach iddi na'i buddiannau, a chyfiawnder na'i hurddas, a dynoliaeth dyn na'i gysylltiadau.

RHAI O NODION YR EGLWYSI.

CAPEL-Y-BRYN.—Rhagfyr 22, llanwyd yr Ysgoldy ag aelodau'r Ysgol Sul a chyfeillion ar wahoddiad yr adran o Gynghrair y Gwragedd ar adeg y " Christmas Tea Party ". Llywyddwyd gan Mrs. S. E. Bowen, ac arweiniwyd gan Mr. Emrys Rees, B.Sc. Wedi dadlwytho'r goeden cafwyd rhaglen dda gan y plant. Diolchodd y gweinidog i'r chwiorydd am eu caredigrwydd.

CAPEL-Y-CWM.—Rhagfyr 23, ar wahoddiad yr Henadur M. Ll. G. Williams, Penralltnewydd, a'i briod, cafodd yr Ysgol Sul wledd o dê a " Christmas Tree " ynghyd ag anrhegion am fynychiadau da yn ystod y flwyddyn. Mynegodd Mr. Richards, Penlanfawr a'r gweinidog y diolch gwresocaf iddynt am eu haelioni.

ALLTYPLACA.—Rhagfyr 29, cafodd yr Ysgol Sul a'r gynulleidfa ar wahoddiad yr adran o Gynghrair y Gwragedd noson lawen a gwledd o dê, ac eto ar Ionawr 4 cafodd yr Ysgol Sul dê, " Christmas Tree " ac anrhegion gan deulu Penralltnewydd. Diolchwyd yn gynnes iddynt oll.

CAPEL Y FADFA.—Ionor 11, perfformiwyd drama ddifyrrus yn Neuadd Talgarreg o dan nawdd y gynulleidfa hon gan gwmni o Lanfihangel-ar-arth. Daeth torf dda ynghyd, a chafwyd perfformiad gwir effeithiol. Yn absenoldeb y cadeirydd apwyntiedig llywyddwyd gan y Cynghorwr Evan Davies, Llaindelyn.

Bore Anghydffurfiaeth Plwyf Gwenog.

Gan Mr. Cledlyn Davies.

Hyd amser Harri'r Wythfed, fe berthynai holl bobl plwyf Llanwenog, fel pawb ereill yng Nghymru, i Eglwys Rufain ; yn ei deyrnasiad ef, oherwydd amryw resymau, fe newidiwyd *enw* yr eglwys, a'i *chredo*. *Eglwys Loegr* oedd ei henw newydd, ac fe wnaed cyfraith a orfodai bawb i gydffurfio â hi, a mynychu ei gwasanaethau.

Cyn belled ag y gwyddys, fe fodlonodd trigolion Llanwenog, heb unrhyw ymholiad, i'r drefn newydd, ac ni estynnodd i gyffiniau'r plwyf mo'r anghydfod crefyddol y sonnia'r bardd Siôn Brwynog amdano—

" Am yr Iesu, ymryson
Yn y byd sydd, enbyd sôn ;
Rhai'n lew am y ffydd *newydd*,
A rhai'n ffest am yr *hen* ffydd ;
Ymlowio ceir mal y cwn,—
Ymhob pen mae opiniwn."

Na, nid oedd lais nac amgyffred gan werin y plwyf ym materion credo'r Eglwys ; goddefol oeddent. Pasient ymlaen o un gyfundrefn i'r llall yn ufudd a distaw, ond er mabwysiadu'r newydd, ni allent beidio â dwyn nodau'r hen, ac o gyfnod cyntefig dewiniaeth (*magic*), ac o amser crefydd Rhufain, fe ddaeth i lawr liaws mawr o ofergoelion a lŷn yma eto, ac ambell ymadrodd hefyd yn cyfeirio at rhyw hen ddefosiwn, megis, ' dan ei grwys ', a ' Dy caton' ! (Duw a'n catwo ni !)

Yn amser y brenin Siarl I, fe gymerodd y plwyfolion yn galonnog at anogaeth yr Archesgob Laud ar iddynt chwareu ac ymddifyrru Sul a Gŵyl. Yn wir, fe lynodd yma am ganrifoedd y ddefodaeth o chwarau pêl yn erbyn mur deheuol clochdy'r Eglwys ar y Suliau, a chicio pêl rhwng Bro a Blaenau ar Wyl Nadolig.

Dechrau Anghydffurfiaeth.

Er amser Gweriniaeth Cromwel, fodd bynnag, fe ddechreuodd syniadau anghydffurfiol dreiddio i ran uchaf y plwyf. Dechreuodd ffermwyr cefnog anfon eu meibion i Gaerfyrddin i'w haddysgu, ac yno, hwyrach, y derbyniwyd ei addysg gan fachgen a aned yn yr Allt Goch yn 1673, ac a ddaeth yn bregethwr dylanwadol gyda'r Bedyddwyr, sef y Parch. Abel Morgan. Tua'r un adeg yr oedd bachgen arall o'r ardal a'i wyneb ar y Weinidogaeth Ymneilltuol, sef David Jenkins. Ordeiniwyd ef yn 1708 yn gyd-weinidog a'r Parch. Philip Pugh ar nifer o eglwysi ynghanolbarth Ceredigion.

CAPEL CRUGMAEN.

Ymhen tair blynedd ar ôl hynny, a thrwy ymdrechion y Parch. David Jenkins yn ddiamau yn bennaf, fe gychwynwyd achos crefyddol mewn adeilad bychan ar fuarth amaethdy Crugmaen ; yn wir, y mae'n fwy na thebyg mai yno y trigai ei rieni. Dyma Eglwys Anghydffurfiol gyntaf plwyf Llanwenog, ac y mae'r flwyddyn y sefydlwyd hi, sef 1711, yn gerfiedig ar gof-faen yn ei mur.

Gwahanol Farnau.

Coleddid amrywiol ddaliadau crefyddol gan aelodau'r eglwys fechan hon o'i chychwyniad, ond mewn ardal lle y trigiasai Bedyddwyr o stamp y Parch. Tomos Dafydd Rhys o Foyddin a Morgan Rhydderch o'r Allt Goch, a'i ddau fab, y Parch. Abel Morgan, a'r Parch. Enoch Morgan, y mae'n dra sicr fod nifer go dda yn dal yr un syniadau a'r rheini. Calfin lled gaeth oedd y Parch. Philip Pugh, ond yr oedd David Jenkins yn fwy rhydd yn ei ddaliadau. Ar yr olaf a enwyd, ynghyd ag ar ŵr o'r enw Jenkin Jones, mab i John Jones, Llwyn Rhys, y gorffwysodd y gofal o weinidogaethu yng Nghrugmaen o 1711 hyd 1725, pan fu farw y Parch. Jenkin Jones. Am gyfnod maith o 33 mlynedd ar ôl hynny fe fu'r Parch. David Jenkins yn weinidog. Bu yntau farw yn 1758, ac yna fe estynnwyd gwahoddiad i'r Parch. Dafydd Lloyd o Frynllefrith i fod yn weinidog. Er fod ar hwnnw eisoes ofal eglwysi Llwynrhydowen, Galltplaca, a Phenrhiw, fe fodlonodd i bregethu yng Nghrugmaen unwaith bob mis, neu, o leiaf, yn achlysurol. A'r achos heb fod yn gryf erioed, fe ymddengys iddo'n fuan wanychu ymhellach trwy i lawer o'i aelodau Arminaidd ymuno ag eglwys Ciliau Aeron, ac fe ddiffoddodd yn llwyr tua'r adeg y bu farw Dafydd Lloyd (1779). Gwasanaethasai'r capel bychan ei bwrpas, er hynny ; bu'n lloches ac yn noddfa i Anghydffurfiaeth yn y cyfnod, a chynyddasai'r goleuni i gryn raddau, bellach, ar bynciau moes a chrefydd.

Y Tywydd—Gweddi ynte'r Gwynt.

Rhedodd prydles yr hen gapel bach allan, ac ad-feddiannwyd yr adeilad gan Siôn, perchennog fferm Crugmaen. Tipyn o anghredadun, mi ddyfalaf, oedd hwnnw, ac ar yr hanesyn a ganlyn y seiliaf fy nyfaliad. Rywbryd tuag 1800, yn ystod rhyw dymor gwlyb iawn, fe gynhelid cwrdd gweddi yn y capel gyda'r amcan arbennig o ofyn gan yr Arglwydd am dywydd sych. Nid aeth Siôn i mewn i'r cwrdd, ond ar ôl bod am ysbaid gerllaw'r drws yn gwrando ar y gweddiwyr yn erfyn am dipyn o sychtwr, fe adroddir iddo ddweud yn uchel ac yn hyglyw,—" Tywydd sych ! Na chewch byth, fechgyn bach, hyd nes ceir y gwynt o rwle heblaw o dwll Cathal 'na ! " (sef y de-orllewin).

Hanes Plwyf Llanwenog.

LLYFR YN BAROD I'R WASG.

AR ôl bod wrthi am dair blynedd yn casglu defnyddiau tuagat ysgrifennu hanes fy mhlwyf genedigol, Llanwenog, yr wyf bellach wedi gorffen y gwaith. Cynhwysir ynddo histori pur gyflawn o bob agwedd ar fywyd yn y Plwyf, o'r cyfnodau cyntefig a chynhanesiol i fyny hyd at y llynedd (1938).

Ceir ynddo benodau ar :—(1) Daearyddiaeth y Plwyf; (2) Daeareg a Phobl y Plwyf; (3) Hynafiaethau; (4) Amaethyddiaeth; (5) Crefydd Esgobol; (6) Crefydd Anghydffurfiol; (7) Enwogion y Plwyf; (8) Enwau a Hanes lleol; (9) Addysg yn y Plwyf; (10) Llên a Hanes Llanwenog; (11) Mewn Heddwch a Rhyfel; (12) Rheolaeth y Plwyf; (13) Cwstwm ac Arfer; (14) Hen Gymeriadau; Atodiad.

Bu'r Plwyf yn fagwrfa llawer o enwogion yn llên a lleyg, ac fe geir ym mhennod ix restri o'r rhai sydd wedi dringo, trwy eu dysg a'u dawn, i safleoedd amlwg ac i swyddi pwysig mewn byd ac eglwys, ac y mae lliaws mawr o'r rhain heddiw ar dir y byw.

Anogir fi i gyhoeddi'r Hanes, ac yr wyf yn arofun gwneuthur hynny. Gan fy mod eisioes wedi mynd i gryn draul wrth chwilota ymhell ac agos am ddefnyddiau, ni fwriadaf fynd i ragor o gost, oni chaf gefnogaeth. Os ceir y nifer a ddisgwylir o danysgrifwyr, mi ddeallaf y gellir dwyn allan yr ' Hanes ' yn llyfr destlus a hardd am 3s.6c.

Oherwydd mai cyfyng ydyw maes apel pob llyfr o'r fath yma, fe erfynir am dderbyniad cyffredinol i'r Hanes yng nghartrefi'r Plwyf; hefyd, gan wŷr a gwragedd genedigol o'r Plwyf, neu ei gyffiniau, ymha le bynnag y bônt; ac fe obeithir ymhellach y ceir cefnogaeth rhai llên-garwyr a hynafiaethwyr mewn cylch helaethach.

A fydd pobun sydd yn barod i brynu un copi o'r llyfr, neu ragor, cystal ag anfon ei enw a'i gyfeiriad i mi, Cledlyn Davies, Dol Ardd, Cwrtnewydd, Llanybyther, o hyn hyd ddiwedd y mis—Chwef 28.

Peidier ag anfon arian; os ceir digon o gefnogaeth, fodd bynnag, fe brintir y llyfr, gyda rhestr gyflawn o'r tanysgrifwyr ar ei ddiwedd, cyn y Sulgwyn, ac fe gaiff pob tanysgrifiwr dalu ei 3s.6c. y prytynny, wrth dderbyn yr ' Hanes '.

CLEDLYN DAVIES.

Lloffion o Hen Ddyddiadur (1819—1858).

(*Parhad*)

Detholwyd a golygwyd gan Miss K. Jones, Gellifaharen.

Ysgrifennydd y dyddiadur ydyw'r Parch. John Thomas a sefydlwyd yn weinidog ar Gapel Pantydefaid, pan symudodd y Parch. John James i Gellionnen yn 1816. Codwyd ef ymhlith yr Annibynwyr, a pharatowyd ef i'r weinidogaeth yng Ngholeg Caerfyrddin (1809-1813). Tua diwedd ei gwrs yno daeth i goleddu syniadau Undodaidd. Meddai ar ddoniau o radd uchel, ac yr oedd yn ddyn diwylliedig. Dywaid y diweddar Brifathro W. J. Evans, M.A. amdano mewn bywgraffiad: "He developed excellent preaching powers towards middle life, and commanded general respect as a man of worth, ranking in public estimation as 'one in a thousand'."

Gadawaf i'r dyddiadur adrodd ei stori ei hun.

1839 : Chwefror 1. Pater obit hora mane. [Claddwyd ei dad ym Mhantydefaid ar Chwefror 4.—K.J.].

Medi 6. Dechreuwyd cynnal gwasanaethau hwyrol yn fy ysgoldy.

1840 : Gorffennaf 26. Casglwyd dros Thos. Richards, ei dŷ wedi llosgi. 4s. 0½c.

Medi 12. Pregethais yn angladd John Davies, Llwynrheol. Yr oedd yn angladd mawr iawn. Cyfrifid fod nifer y ceffylau dros 400. Claddwyd ef yn Llanwnen. Cwblhawyd y mur ogylch ein mynwent, oddigerth ar yr ochr ogleddol.

Medi 30. Bum yn y Cyrddau Chwarter yn yr Onnen Fawr.

Hydref 6. Bu farw Mrs. Evans, Castell Howel heddiw. [Mam Dr. Abel Evans, Llanbedr—K.J.].

1841 : Mai 16. Yng Nghaerfyrddin syrthiais i gloddiad (excavation) yn ymyl y Parade, anafais fy hun yn dost, a rhwygais fy nghot.

Mehefin 1. Bum yn y cwrdd yng Nghapel y Fadfa. Dechreuwyd gan Mr. Wm. Rees [Cwmwr Du]. Pregethwyd gan Mr. Lewis [wedi hynny o Flaengwrach], hefyd Mr. Jeremy.

1842 : Ionawr 10. Bum yn ffair Llwynrhydowen.

Ionawr 17. Darllenais gynllun Mr. Peel i dolli llafur, h.y. pan fo pris y llafur yn y wlad yn 5ɪs. y chwarter neu lai, y dôll yn 19s. . . .

Mawrth 1. Pregethais ym Mhantydefaid i'r Ivoriaid lleol.

Awst 15. Euthum i Gastell Newydd i weld cysegru'r Eglwys newydd gan Esgob Thirlwall.

Medi 19. Ffair Medi. Ffair slac iawn a marw yma.

Medi 23. Darllenais fod ein grasusaf frenhines [Victoria] wedi dychwelyd yn ddiogel i Windsor o'i thaith yn neheudir a gogledd yr Alban. Y mae'r haf wedi bod yn ffrwythlon dros ben a gwresog, gyda chawodydd tyner, a'r cynhaeaf yn dda tu hwnt.

Hydref 4. Cychwynais ar fy ffordd i'r Cyrddau Chwarter yn y Notais. Cysgais yng Nglygin.

Hydref 5. Cyrhaeddais y Notais. Dechreuwyd gan Ben Davies [Panteg? —K.J.]. Pregethodd Mr. John James i gynulleidfa lawn. Pregethodd Mr. John Jones o'i flaen yn Saesneg

Hydref 6. Dechreuwyd gan Mr. James. Pregethais innau oddiar Ioan x, 30. Y cwrdd nesaf yng Nghaerfyrddin. Y cwestiwn yn y gynhadledd a fydd Prynedigaeth.

Hydref 11. Darllenais yn "*The Cambrian*" fod W. E. Channing, D.D., diweddar weinidog cynulleidfa Federal Street, wedi marw yn Burlington, Vermont y dydd Sul diwethaf, yn ôl y "*New York Evening Post*".

Hydref 26. Ysgrifennais yn Ngelynen ewyllys Ben Evans.

Rhagfyr 28. Bum yn y Cyrddau Chwarter yng Nghaerfyrddin. Pregethodd Mr. Jones, Penybont-ar-Ogwr [Golygydd cyntaf Yr Ymofynnydd—K.J.] yn Saesneg, pregeth fer iawn. Gwnaeth Mr. Brock, Abertawe, yr un fath oddiar Actau xvii, 23. Mr James, Gellionnen, I Thes. ii, 13.

1843 : Ionawr 8. Telais am bwys o ymenyn 8c., cwarter o dê, 1s. 6c.

Gorffennaf 8. Neithiwr torrwyd gât Pontweli.

Gorffennaf 9. Ymwelais â Mr. Rhys Jones, Pwllffein.

Gorffennaf 11. Clywais fod Rebeca wedi torri gât Gwarallt neithiwr.

Gorffennaf 12. Danfonais lythyr i "*The Cambrian*" ynghylch gât Tweli.

1844 : Chwefror 15. Mr. Rhys Jones, Pwllffein wedi marw, a chladdwyd ef ym Mhantydefaid. Pregethais oddiar I Tim. vi, 9.

Ebrill 5. Pregethais yn Yr Onnen Fawr.

Ebrill 6. Cerddais i'r Gelligron, lle y ciniawais, a cherddais i gartref Mr. James.

Ebrill 7. Pregethais yng Ngellionnen. Am 4 p.m. ym Mhontardawe. Ioan x, 30.

Ebrill 8. Cerddodd Mr. James a minnau i Aberdar.

Ebrill 9. Cerddodd Mr. James, Mr. D. Evans, Maesymeillion a minnau i'r Cefn, ciniawyd gyda Mr. Owen Evans. Dychwelwyd i Aberdar, chwiliwyd yn ofer am y ffynnon dwyn. Dechreuodd Mr. Jeremy y gwasanaeth am 6. Pregethais oddiar Effes. iv, 1.

Ebrill 11. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mr. Griffiths, Llandeilo. Pregeth odd Dd. Lewis Jones, Penybont-ar-Ogwr. Hefyd Dr. Lloyd. Y cwestiwn a drafodwyd, Cynllun a bwriad cosp ddyfodol.

Ebrill 12. Dychwelais i Gastell Nedd.

Ebrill 13. Cerddais i Gellionnen.

Ebrill 14. Pregethais yng Ngellionnen.

Ebrill 15. Dychwelais gartref, wedi blino'n fawr ac wedi gwlychu.

Ebrill 27. Euthum gyda Mr. Thomas, Dol-llan, i Nantyrymenyn er mwyn ceisio gwybod pa nwyddau a oedd ym meddiant llysferched Mrs. Jones.

Mehefin 28. Ciniawais a threuliais y prynhawnddydd yn Nhregroes gyda'r ddau Evans. Cefais bys, ffa, erfin a tharten gwsberris i ginio.

Gorffennaf 26. Tua'r amser hwn darllenais i'r Frenhines gadarnau y "Dissenters' Chapels Bill". Rachel Dio Rees yn medi drosof yn Wilke's Head.

Hydref 2. Mr. James a minnau, Dr. Lloyd a Peter Joseph yn mynd gyda'n gilydd i gwrdd Panteg.

Hydref 9. Yma neithiwr galwodd Evan Evans, Cefn Henbant, wedi dychwelyd o Lerpwl, gan hebrwng fy nith oddiyno i Aberdaugleddyf (Milford) yn yr agerlong 'Troubadour'. Daethant gyda'i gilydd i Gaerfyrddin. Cysgodd ef yma neithiwr. Aeth gartref wedi brecwast. Danfonais Mary Penstâr gyda'i chert i ddod gartref a'm nith a'i chist. Gyda'r hwyr cyrhaeddodd y ddwy. Deellais mai Margaret oedd fy nith. Nid adnabum hi. Y mae wedi llwyr anghofio'r iaith Gymraeg.

1845 : Ionawr 19. Pregethodd Mr. Peter Joseph ym Mhantydefaid.

Chwefror 13. Cefais yn ddiweddar ar gredit o Bantolwen fesur o bilcorn barlys.

Gorffennaf 2. Mary Dd. Rees yn nyddu i mi. Y mae wedi bod gyda mi naw niwrnod.

Gorffennaf 30. Ymddiswyddais o Bantydefaid.

Hydref 2. Mr. Thomas o'r Fadfa yn agor y gynhadledd yng Nghyrddau Chwarterol Pantydefaid. Cwestiwn—Gras Achubol.

Priodas.

Hydref 6, 1938, yn Eglwys St. Lawrence, Catford, JOHN JENKIN CEREDIG JONES a DORRIS TUTT, y Parch. Reginald M. Pitches yn gweinyddu. Dymunwn iddynt ddyfodol hapus.

Marwgofion.

Ar Ragfyr 16 bu farw EDNA DAVIES, unig ferch Mr. a Mrs. John Davies, 15, Main Road, Cadoxton, Castell Nedd, yn 17 mlwydd oed. Bu'n gwaelu am fisoedd, a dioddefodd gystudd caled yn amyneddgar. Nodweddid hi gan ysbryd swynol, a gwelir ei lle'n wag yng nghylch eang ei chyfeillion. Cymrai ddiddordeb mawr yng ngweithgarwch Eglwys Llangatwg, lle yr oedd yn aelod o'r côr. Y dydd Mercher dilynol daeth torf fawr ynghyd i'w chynhebrwng, a gwasanaethwyd gan Ficer y plwyf. Yr oedd Edna yn orwyres i Mr. a Mrs. James Davies a arferai ofalu am Gapel y Groes. Cydymdeimlir yn fawr iawn a'i thad a'i mam a'r tri brawd sy'n galaru eu colled.

Rhagfyr 20, yn 54 mlwydd oed, bu farw DAVID WILLIAMS, mab y diweddar Evan ac Elizabeth Williams, Brynderw, Llanwnnen, ar ôl amryw fisoedd o gystudd caled, gan adael brawd,dwy chwaer, a nifer luosog o berthynasau agos, mewn hiraeth dwys o'i golli. Dechreuodd waelu yn fuan wedi iddo ddychwel i Dreffynnon Awst diwethaf ar ôl ei wyliau yn ei hen gartref; a buan y bu raid iddo ddychwel i Lanwnnen, i fod tan ofal tyner ei frawd a'i chwaer, a wnaeth bopeth a fedrent i adfer ei iechyd. Derbyniwyd ef i wasanaeth Ariandy Barclay yn 1901, gan ddechreu ym Manor Park, Llundain; oddiyno, symudwyd ef yn olynol i East Ham (Llundain), Weybridge (Surrey), Llanidloes, Pontypridd, ac Aberdâr. Yn 1925, penodwyd ef yn Brif-swyddog cangen Treffynnon o'r Ariandy, gyda gofal yr is-gangen yn nhref Fflint. Yno, ymdaflodd gydag ynni a phenderfyniad i ddyletswyddau ei swydd bwysig, a bu llwyddaint rhyfeddol ar ei ymdrechion, yn gymaint felly fel yr enillodd iddo'i hun gymeradwyaeth wresog awdurdodau'r Ariandy yn ogystal ag ymddiriedaeth lwyr cylch eang o gwsmeriaid. Yn ychwanegol at ddyletswyddau ei swydd, chwaraeodd ran amlwg ym mywyd cyhoeddus y dref, yn enwedig ynglŷn â'r Ysbyty Leol; trwy wahanol gyfryngau bu'n foddion i gasglu cryn symiau tuag at ei chynnal. Enillodd iddo'i hun, felly, gylch eang o adnabyddiaeth yn y dref a'r cylch a'i parchai yn fawr, fel y gwnaed yn amlwg yn y papurau lleol adeg ei farw. Daeth amryw yr holl ffordd o Dreffynnon i'w gynhebrwng fel arwydd o'u parch iddo. Cydymdeimlir yn fawr â'r brawd a chwaer ym Mrynderw, yn ogystal a'r chwaer absennol, yn eu hiraeth o golli brawd a garent mor fawr. Y dydd Llun dilynol hebryngwyd ei weddillion i gladdfa'r teulu yng Nghapelygroes, y cynhebrwng yn gyfyngedig i'r perthynasau a'r cymdogion agosaf. Darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan y Parch. Ganon Silas Evans a'r Parch. S. E. Bowen; yn y capel, darllenwyd gan y Parch. E. Jenkins, ficer Llanybyther, traddodwyd anerchiadau byr gan y Parch. E. G. Jones (gweinidog y lle) a'r Parch. D. Evans, Cwmiago; a gweddiwyd gan y Parch. Lewis Williams; ar lan y bedd, darllenwyd rhan o'r gwasanaeth claddu gan y Parch. B. Davies, ficer Llanwnnen, a gweddiwyd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Brondeifi. Dymuna'r teulu ddiolch i bawb a amlygodd gydymdeimlad â hwy mewn gwahanol ffyrdd yn eu profedigaeth.

Rhagfyr 28, bu farw HANNAH JONES, merch annwyl Evan a Mary Jones, Llawrcwrt, Talgarreg yn 23 mlwydd oed. Dechreuodd nychu tua blwyddyn a hanner yn ôl, ond ni feddyliwyd fod niwed arni. Er hynny, ar gyngor y meddyg aeth i Iechydfa Tregaron, lle y treuliodd flwyddyn gron. Am rai wythnosau bu yn Ysbyty Sully, gerllaw Barri yn chwilio am iechyd, ond ofer fu'r ymdrechion i gyd, a daeth adref i brofi o'r newydd beth oedd tynerwch mam a thad, brodyr a chwiorydd, cyn marw ohoni. Y mae'n loes i feddwl fod geneth fel hon wedi ei thorri i lawr mor gynnar. Merch ieuanc yr oedd iddi lu mawr o ffrindiau ydoedd Hannah. Gwnai ffrindiau ymhobman a ffrindiau o bawb. Yr oedd iddi gorff lluniaidd iawn ; cerddai'n ysgafn ac esmwyth, ac yr oedd o ran ysbryd yn fywiog a nwyfus, yn llawn egni ac aspri. Yr oedd o feddwl diwenwyn, o anian garedig, gymwynasgar. Pe cai hon fyw byddai'n Ddorcas yn ei chylch. Yr oedd yn ffyddlon iawn yng Nghapel y Fadfa gyda'r gwasanaeth, yr ysgol gân, a'r cymanfaoedd. Cydymdeimlir yn fawr â'r teulu'n eu galar ar ei hôl, ac hyderir y cânt brofi o'r nerth sy'n dod " yn ôl y dydd ". Claddwyd y dydd Llun dilynol, pryd y cafwyd profion amlwg fod un annwyl wedi mynd, ym mynwent Capel y Fadfa. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, H. Ponsford, Talgarreg, a Gwilym Morris, Pisgah, a gwasanaethwyd wrth yr organ gan Miss Lil Lewis. " Ni chei di fynd dros yr Iorddonen hon."

Pluen wen o eira
Ddaeth o fro yr hedd ;
Cwrlid fel y carlwm
Guddiodd graith y bedd.

Bluen unlliw drwyddot
Fel y fwynferch lon,
A oedd neges gennyt
I'r friwedig fron ?

Flodau teg y nefoedd,
Pam y daethoch chwi ?
Ai i leddfu'r gaeaf
Ddaeth i'w gwanwyn hi ?

D. Jacob Davies.

Ionor 3, DAVID JOHN (DAFFO) EVANS, annwyl fab i John Evans a'r diweddar Frances Evans, Wilkes Head, Llandysul yn 39 mlwydd oed. Annwyl yn Llandysul a Phontweli ydoedd Daffo, a lle bynnag yr elai gwnai gyfeillion. Corff gwan, bregus oedd iddo o'r cychwyn, a phan oedd yn blentyn yr oedd gofal mawr wrtho. Os oedd yn wan o gorff, yr oedd yn gryf o feddwl, a hwnnw yn feddwl trefnus a thaclus. Yr oedd ganddo gof gafaelgar a manwl iawn. Ymhob anhawsder i gofio pryd y cymerodd hyn neu arall le, neu lle yr oedd hyn ac arall, medrai ef dorri'r ddadl yn ddieithriad. Yr oedd yn un a deimlai bethau i'r byw. Teimlodd yn fawr o golli ei fam ; teimlodd drachefn i'r dwfn pan gollodd ei chwaer—Mrs. Sturdy—a phan gollodd ei ' Auntie Mari ', Gwarcwm, diflasodd drwyddo, ac ni fu'r un byth wedi hynny. Credwn nad oedd neb yn y cylch a gymrai fwy o ddiddordeb yng ngwaith a llwyddiant ein heglwysi'n y sir na'r bachgen hwn. Yr oedd rhan helaeth o ddiddordeb ei fywyd yng nghlwm wrth y capel a'i bethau, wrth y Gymanfa Ysgolion, y Gymanfa Ganu, a'r cyfarfodydd pregethu. Bydd y byd am yspaid faith gryn dipyn yn wacach i lawer o'i golli. Cyflwynwn ein cydymdeimlad llwyraf i'w dad a'r teulu'n eu hiraeth ar ei ôl. Claddwyd y dydd Gwener dilynol yn ymyl bedd ei fam ym mynwent Llwynrhydowen. Pregethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, a chymrwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. E. Gwilym Evans, B.A., Myfyr Evans, R. Morris, E. Davies, B.A., Llanfair-orllwyn, D. Rhydderch, B.A., a D. A. Williams. Yr oedd y Parch. S. E. Bowen hefyd yn bresennol. Chwaraewyd yr offeryn gan Miss Jennie Davies, Bryn-clettwr.

Ar Ionor 7 bu farw PHILLIP WILLIAM THOMAS, 98, Swansea Road, Trebanos, yn 46 mlwydd oed. Un hapus ei anian ydoedd, yn gwmniwr diddan, ac yr oedd cylch ei ffrindiau yn un eang. Ni chafodd iechyd da ers blynyddoedd, ac ar y diwedd dioddefodd gystudd trwm gyda siriolded ysbryd. Cladd wyd ef y dydd Mercher dilynol wrth Gapel Gellionnen, a daeth torf o'i gyfeillion yno i hebrwng ei weddillion i'r gladdfa. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Geoffrey Rees, Treforus, ac yn y Capel ac ar lan y bedd gan y Parchn. J. D. Jones a Daniel John. Estynnir ein cydymdeimlad dyfnaf i Mrs. Thomas ac Olive, yr unig ferch, a'r lliaws perthynasau ereill.

Estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf i Mr. Joshua Davies a'i deulu, Talgrwn ar golli ohono ei fab hynaf, DAVID DAVIES (Daff), a fu farw ar Ionor 8 yn 14 mlwydd oed. Bydd ei le'n wag yn yr Ysgol Sul ac yn y cylch. Un tawel ei ffordd ond diwyd bob amser ydoedd. Bu ei angladd y dydd Iau dilynol yng Nghapel y Groes. Gwasanaethwyd gan y Parchn. S. E. Bowen, E. Griffith Jones, a D. Evans, Cwmiago.

Ar Ionor 10 ym Mharcyderi, Llansamlet, yn 65 mlwydd oed yn ddisymwth bu farw MARGARET ELIZABETH JONES, gweddw Richard Jones, Gelli, Birchgrove. Yr oedd Mrs. Jones yn ferch i'r diweddar Mrs. Dinah Jones, Glanbran, Birchgrove (gynt o Llechwedd, Llanybydder). Fel e: mam ymfalchiai yn nhraddodiadau Undodaidd y teulu ac, yn wir, estynnai gymorth parod bob amser i holl achosion crefyddol yr ardal. Siaredid yn uchel amdani gan bawb—hawliai ei chymeriad godidog hynny, ac nid yn unig yng nghylch y teulu y gwelir ei lle'n wag ond yn y gymdogaeth yn gyfan y teimlir hiraeth mawr ar ei hôl. Cydymdeimlir yn fawr iawn a'r ddwy ferch, a'r ddau fab, a'r chwaer yn eu galar dwys. Cladd wyd hi'r dydd Iau dilynol ym mynwent Eglwys Llansamlet, yr angladd yn anghyhoedd. Yr oedd holl weinidogion y cylch yn bresennol. Trefnwyd y gwasanaeth yn y tŷ gan y Parch. J. D. Jones, a threfnwyd y gwasanaeth yn yr Eglwys gan Ficer y plwyf.

Nodion yr Eglwysi.

RHYDYGWIN.—Bu Mrs. Jenkins, Blaenwaunganol yn cyfarwyddo aelodau'r adran leol o Gynghrair y Gwragedd ynglŷn â *cake-icing*. Diolchwyd yn gynnes iddi, a chaed tê cyn ymadael.

LLUNDAIN.—Y mae'r gynulleidfa Gymraeg wedi penderfynu ymsefydlu ei hunan yn Eglwys, a bwriada sefyll ar ei thraed ei hun heb ddibynu (megis yn y gorffennol) ar y *London District Provincial Assembly*. Penodwyd y swyddogion canlynol : Ysgrifennydd, Mr. E. D. Jones (o Frondeifi) ; Trysorydd, Mr. J. O. Lewis (o Landysul) ; Organyddes, Miss Myfanwy Davies (o Frondeifi) ; Cadeirydd, Dr. R. Ogwyn Jones, M.Sc. (o Gellionnen). Oherwydd sefydlu'r Eglwys yn nhir alltud y mae dan amryw anfanteision, ac oherwydd hynny teilynga bob cynorthwy a all Eglwysi Cymru roi iddi. Sôn am Eglwysi Undodaidd yn gwanhau, ac weithiau'n cau eu drysau, a fu yn ystod yr hanner canrif diwethaf—wel, dyma un newydd yn cychwyn.——Cynhelir Sosial yn Essex Hall am 7.30 nos Fercher, Chwefror 8.——Bydd GWASANAETH CYMRAEG yng Nghapel Unity, Upper Street, Islington, N.1. ar Chwefror 5 am 4.15. Pregethir gan y Parch. J. Tyssul Davis, B.A., Bryste. Tê ac ymgom yn yr Ysgoldy ar ôl y Gwasanaeth. Ar Fawrth 5 pregethir gan y Parch. J. H. Coram Davies, B.A., Caerdydd.

TREBANOS.—Dydd Nadolig—Llawenydd calon ydoedd gweld cymaint o blant y gynulleidfa sydd ar wasgar yn yr oedfaon drwy'r dydd. Yr oedd gweld eu serch at yr achos yn ysbrydiaeth i ni sydd gartref, ac oddiwrth ereill na allent fod gyda ni'r dydd hwn derbyniwyd dymuniadau a chofion cynnes. Danfonwyd blodau i'w gosod ar fwrdd y Cymundeb bob cam o Johannesburg, De Affrica oddiwrth deulu Mr. W. J. Bevan, gyda dymuniadau'r teulu am lwyddiant yr " Hen Gapel ar y mynydd " ynghŷd â chofion cynnes am lawer awr hapus yn y " Capel yn y dyffryn ".——Wedi oedfa'r hwyr cynhaliwyd cyngerdd yng Nghapel y Graig, a chafwyd rhaglen ardderchog,—Unawdau ar yr Organ gan Mr. I. E. Hopkin, B.Sc. ; Adrodd—Nan Tawe Lewis, Godrergraig a Miss Menna Thomas, Clydach ; Unawdau—Miss A. Evans Craigcefnparc, Master David Price a Mr. Howell Davies, Pontardawe. Diolchwyd iddynt gan Mr. John Hopkin a Mr. Ben Thomas. Llywyddwyd gan y Gweinidog, a threfnwyd y cyfarfod gan Mr. Arthur Williams a Mr. Alfred Griffiths.

ABERDÂR.—Rhagfyr 31, fel arfer, cynhaliwyd ' Cwrdd Noson Ola'r Flwyddyn ' dan nawdd yrYsgol Sul. Ar waethaf tywydd anffafriol yr oedd y cynulliad yn dda, a gofalodd yr aelodau o adran o Gynghrair y Gwragedd am baratoi cwpanaid o de a bara brith i roesawu'r cwmni. Ni welwyd diffyg ar fwynhad pawb wrth y byrddau—praw fod y danteithion yn flasus a'r ymgom yn hwylus. Wedi clirio'r byrddau cafwyd rhaglen amrywiol a drefnwyd gan Mri. Idris Davies ac Edgar Williams. Llywyddwyd gan Mr. D. T. Williams, Arolygwr yr Ysgol Sul. Fel arfer y gorchwyl cyntaf ydoedd anrhegu'r plant am eu ffyddlondeb. Galwyd ar y gweinidog, y Parch. E. R. Dennis, i wneud hynny, ac wrth estyn i'r plant eu anrhegion siaradodd wrthynt eiriau o ganmoliaeth gan ddymuno y byddai eu ffyddlondeb yn parhau drwy gydol y flwyddyn a oedd yn gwawrio. Anogwyd hefyd y rhai mewn oed i dderbyn esiampl y rhai bychain hyn mewn ffyddlondeb a brwdfrydedd—elfennau sy'n brin, mi ofnaf, yn ein heglwysi oll. Y mae'n sicr fod gwaith yr eglwys yn y dyddiau cythryblus hyn yn gofyn oddiwrthym y sylw manylaf a'r ffyddlondeb gorau. Rhaid ymatal neu bydd golygydd parchus yr Ymofynnydd yn cwyno fy mod yn gwyro oddiwrth fy nhestun. Wel, rhaglen cwrdd noson ola'r flwyddyn—dyma hi,—Adroddiadau —Ronald Davies, Joan Harries, Betty Williams, a Medi Williams. Unawdau—Sheila Davies, Janet Davies, Mr. Josiah Davies, Mrs. W. J. Jones, a Miss Nancy Evans. Deuawdau—Marian Davies a Betty Williams. Triawd—Mri. Josiah Davies, Gwynfryn James, a Glyn Pittard. Unawdau Offerynnol—Mri. W. J. Jones, A.L.C.M., Eifion Morgan a W. Harries. Cytgan gan barti dan gyfarwyddyd Mr. Idris Davies, Ysgrifennydd yr Ysgol Sul. Mrs. J. S. Evans, Mrs. Ceredig Morgan, a Mr. W. J. Jones a fu'n cyfeilio. Ar derfyn y rhan yma o'r cwrdd diolchwyd yn gynnes i'r Henadur W. M. Llewelyn, Y.H., Penderyn am gofio amdanom y tro hwn eto mewn modd caredig iawn, i Arolygydd yr Ysgol Sul am lywyddu a chofio am deganau i'r plant, ieuanc a hen, canys y mae'r hen a'r ieuanc yn un mewn hwyl y noson yma. Diolchwyd hefyd i bawb a fu'n cynorthwyo'r paratoadau. Yna gyda hwyl cafwyd chwaraeon hyd nes gwawrio o'r flwyddyn newydd pryd y ffurfiasom gylch a chanu law yn llaw " Auld Lang Syne ". Dymunasai pobun yn dda i'w gilydd, a mynegwyd dymuniad dwys am weld Heddwch yn teyrnasu'n y flwyddyn newydd ac egwyddorion Tywysog Tangnefedd yn cael lle mwy amlwg yn ymddygiad y gwerinoedd tuag at ei gilydd.

CAPEL Y FADFA.—Rhagfyr 29, cafwyd noson lawen pryd y daeth nifer dda o'r ffyddloniaid ynghyd. Yn ôl eu harfer trefnodd y chwiorydd bethau blasus i'w bwyta, a chafwyd amser da wrth y byrddau. Yna anrhegwyd y plant am gadw yr Ysgol Sul. Cafodd y goreuon ohonynt lyfrau defnyddiol, megis y *Perlau Moliant* a *Thestamentau*. Cafodd pob un ohonynt anrheg o law Father Christmas (Mr. Dan Davies, Ddolwilym). Yn ystod yr hwyr cafwyd adrodd a chanu gan y plant, a gwelwyd fod yma dalent gyda'r ddau waith. Yr oedd y cyfarfod yn llaw Mr. Evan Evans, Glantre (yr Arolygydd) a Mr. E. Lloyd Jones, Pantybryn, a chafwyd anerchiadau pwrpasol gan y ddau.

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.